

Sarah Evans
Julian Boys
Rosie Maguire

Echdynnu yn ecosystem byw â
chymorth cnabledau dysgu
Cymru

Ynghylch CLES

Wedi'i sefydlu ym 1986, mae'r Centre for Local Economies yn elusen ac yn felin drafod economeg annibynnol. Rydym yn cydweithio ledled y DU ac Iwerddon i ddatblygu atebion sy'n sicrhau bod economïau wedi'u gwreiddio yn y lleoedd y mae pobl yn eu galw'n gartref.

Yn CLES, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydradd â phob lefel o lywodraeth, sefydliadau lleol a chymunedau – gan herio dulliau hen ffasiwn a mynd i'r afael â materion lleol gydag atebion ymarferol, hirdymor.

Ynghylch yr awduron

Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn ochr yn ochr â'n gwaith ehangach gyda thri sefydliad nider-elw blaenllaw arall sy'n gweithio mewn partneriaeth ar brosiect o'r enw Reclaiming Our Regional Economies. Mae ein partneriaeth yn cynnwys sefydliadau, y Centre for Local Economies (CLES), y Centre for Thriving Places (CTP), Co-operatives UK a'r New Economics Foundation (NEF).

Rydym yn unedig yn ein cred bod ffordd well o gynllunio a chyflawni strategaethau economaidd ac ecosystemau lleol, mewn ffordd sy'n fuddiol i drigolion, lleoedd a'r amgylchedd. Mae ein gwaith yn dod â chymunedau ynghyd ag arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr sefydliadau i brofi syniadau sy'n helpu i ail-lunio a diwygio eu heconomïau rhanbarthol, fel eu bod yn gallu sicrhau bywydau da nawr ac am genedlaethau i ddod.

Mae'r ymchwiliad newydd hwn yn cyfrannu at ein llyfrgell gynyddol o dystiolaeth ar raddfa'r arferion echdynnol sy'n digwydd yn ein cymunedau, a'r hyn y gallwn ei wneud ynghylch hynny - gyda'n gilydd.

Ynghylch yr adroddiad hwn

Comisiynwyd ac ariannwyd yr adroddiad hwn ar y cyd Rhif elusen gofrestredig Anheddau, Ategi, Cartrefi Cymru, Codi, Cymorth Cymru, Dimensions, Drive, First Choice Housing, Innovate Trust, Mencap Cymru, Mirus a Perthyn.

Awst, 2026

info@cles.org.uk | +44 (0) 161 832 7871
www.cles.org.uk | @CLEStinkdo
Rhif elusen gofrestredig. 1089503

1. Cyflwniad

Deilliodd yr ymchwiliad hwn o waith a oedd yn edrych ar arferion echdynnol yn systemau gofal Lloegr. Edrychodd yr [ymchwil honno](#) ar y modd y mae gofal a gomisiynir gan awdurdodau lleol mewn tri rhanbarth yn Lloegr yn cael ei ddarparu fwyfwy gan sefydliadau mawr, preifat heb wreiddiau lleol. Gwnaeth gofnodi'r ffordd y mae arian yn llifo allan o economïau lleol, weithiau i fannau lle mae'n anodd sicrhau atebolrwydd democrataidd.

Enw'r broses hon yw 'echdynnu'.

Mae echdynnu yn ymwneud â mwy nag elw. Mae'n ffordd o archwilio'r ffyrdd ehangach y mae cwmnïau wedi'u strwythuro ac yn gweithredu sy'n eu galluogi i dynnu arian allan o gymunedau lleol ac economïau lleol. Pan edrychwn ar y mathau o fusnesau sydd wedi'u strwythuro ar gyfer echdynnu, yn aml iawn y rhai sy'n cael eu cefnogi gan fodolau sy'n bodoli er mwyn gwneud elw o beth bynnag y gellir ei droi'n nwydd i'w fasnachu; nid er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar urddas i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac i'r rhai sy'n gweithio ynddynt.

Gwnaeth ein hadroddiad ennyn diddordeb rhanddeiliaid yng Nghymru i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn y maes y maent yn gweithio ynddo: byw â chymorth i bobl ag anabledau dysgu a phobl awtistig. Roeddent am ddeall sut mae'r system gomisiynu'n gweithredu ar hyn o bryd a nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn cefnogi trafodaethau a phrosesau cynllunio mwy gwybodus ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddarparwyr gwasanaethau byw â chymorth, gofal preswyl a gwaith Cysylltu Bywydau ar gyfer pobl ag anabledau dysgu, er mwyn archwilio hyd a lled a natur y broses o wneud elw ac echdynnu wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Gwnaethom edrych ar wasanaethau a gomisiynwyd gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol rhwng 2015 a 2025, ac yna archwilio'r wybodaeth ariannol a oedd ar gael ar gyfer pedair blynedd o ddata (2021-2024) er mwyn amcangyfrif lefelau proffidioldeb ac echdynnu difidendau a llog, gan gynnwys i riant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u cofrestru mewn hafanau treth a/neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat.

Gobeithiwn y bydd y gwaith hwn yn annog llunwyr polisïau a chomisiynwyr i fyfyrrio ar ei ganfyddiadau, gofyn cwestiynau am yr hyn sy'n gweithio o fewn polisïau ac arferion, ac ystyried blaenoriaethau ar gyfer newid ledled Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi:

- Y cyd-destun y mae ecosystem byw â chymorth Anabledau Dysgu yn bodoli ynddo.
- Yr ecosystem – pwy sy'n cyflawni gwaith, a sut mae'r gwaith hwnnw'n cael ei gontractio.
- Llifau ariannol – gall dadansoddi contractau ac adroddiadau ariannol ddweud wrthym i ble y mae arian cyhoeddus yn mynd, yn ogystal â'r hyn na ellir ei ganfod o'r data sydd ar gael i ddinasyddion ac ymchwilwyr.

- Myfyrdodau ar yr hyn y gwnaethom ei ddysgu o'r broses.

2. Cyd-destun Cymru

Gofod polisi optimistaidd

Ers datganoli ym 1999, pan sicrhodd y Senedd a Llywodraeth Cymru¹ gyfrifoldeb dros feysydd polisi domestig allweddol megis iechyd, addysg a llywodraeth leol, mae llawer o'r farn bod Cymru wedi datblygu dull unigryw a blaengar o ddatblygu deddfwriaethau a pholisïau. Mae datganoli wedi ei gwneud yn bosibl i deilwra polisïau at anghenion Cymru, gan alluogi dulliau mwy hyblyg sy'n ymateb i anghenion lleol, yn hytrach nag efelychu penderfyniadau San Steffan yn unig. O ganlyniad, mae'r broses o lunio polisïau yng Nghymru yn aml wedi'i nodweddu gan ei natur ymarferol, bragmatig, a chaiff ei llywio gan y cyd-destun.

Mae dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sy'n cyfleu'n arbennig yr arddull polisi bragmataidd a nodedig hon yn benodol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y gyntaf o'i bath yn y byd, yn sefydlu fframwaith sy'n rhwymo'n gyfreithiol, gan ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol ac yn cyflwyno'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu bod yn rhaid i benderfyniadau ddiwallu anghenion presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn hyrwyddo pum ffordd allweddol o weithio (meddwl yn y tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogi) sy'n anelu at annog ffordd gydgysylltiedig ac ataliol o lunio polisïau. Roedd y Ddeddf yn gam sylweddol tuag at geisio mynd i'r afael â heriau cymhleth, tymor hir drwy bolisi cydgysylltiedig a blaengar.

Yr ail ddarn o ddeddfwriaeth, sydd â pherthnasedd gwirioneddol i'r darn hwn o ymchwil, yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n darparu fframwaith ar gyfer trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy ganolbwyntio ar lesiant unigol ac ymyrryd yn gynnar. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r Ddeddf yn rhoi mwy o ryddid i bobl benderfynu pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan hyrwyddo ar yr un pryd wasanaethau mwy cyson o ansawdd uchel ledled Cymru. Byddai'n gwneud hyn drwy newid sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu.

Byddai llawer yn dadlau bod y Ddeddf wedi mynnu newid mewn diwylliant er mwyn helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Gwnaeth hynny yn gyntaf drwy ofyn 'Beth sy'n bwysig i chi?', ac yn ail drwy fanteisio i'r eithaf ar rwydweithiau cymorth yr unigolyn a'i gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau cymunedol a gwirfoddol.

¹ Rydym yn defnyddio "Senedd" a "Llywodraeth Cymru", at ddibenion yr adroddiad hwn, i gyfeirio at bob fersiwn o senedd a llywodraeth yng Nghymru ers 1999 er mwyn eglurder – er gwaethaf y newidiadau amrywiol o ran enw a phwerau ers 1999.

Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf sydd, yn ein barn ni, yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn yw:

- Llais a rheolaeth – rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd ei ofal, cyflawni llesiant.
- Atal ac ymyrryd yn gynnar – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn atal anghenion rhag dwysáu a dod yn rhai critigol.
- Llesiant – cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
- Cydgynhyrchu – annog unigolion i gymryd mwy o ran yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Gwnaethom hefyd archwilio Adran 16 o'r Ddeddf, sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol wrth gynllunio, comisiynu a darparu gofal cymdeithasol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau'r trydydd sector wrth ddarparu systemau cymorth gofal traddodiadol, yn ogystal â gwasanaethau ataliol.

Nid yw Adran 16 yn ymwneud ag amrywio'r darparwyr yn unig, mae'n ymwneud hefyd ag adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd o fodel gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar y farchnad. Yn wahanol i ddeddfwriaeth debyg yn Lloegr, sy'n hyrwyddo cystadleuaeth rhwng darparwyr, mae'n ceisio cryfhau rôl sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol. Y nod yw adeiladu ecosystemau gofal cynaliadwy sydd â gwreiddiau lleol, lle mae gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion lleol ac mae adnoddau'n cael eu hailfuddsoddi mewn cymunedau lleol.

Un o ddibenion allweddol eraill Adran 16 yw ymgorffori cydgynhyrchu, fel nad yw defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn cael eu trin fel derbynwyr goddefol ond yn hytrach eu bod yn chwarae rhan bwysig wrth lywio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Mae Adran 16 yn ei gwneud yn ofyniad penodol i awdurdodau lleol hyrwyddo'r cyfranogiad hwn, gan sicrhau bod gan unigolion lais a mwy o reolaeth dros y cymorth y maent yn ei gael.

Mae Adran 16 hefyd yn cefnogi nod ehangach y Ddeddf o ran atal, gan ei bod yn annog gwasanaethau arloesol a arweinir gan y gymuned, a dulliau ymyrryd yn gynnar sy'n ceisio lleihau'r angen am ofal mwy dwys a chostus yn nes ymlaen. Unwaith eto, ystyrir yn aml bod mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau'r trydydd sector mewn sefyllfa dda i ddarparu cymorth ataliol, gan helpu unigolion i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant yn eu cymunedau eu hunain.

Yn ogystal, mae Adran 16 yn ceisio meithrin gwaith partneriaeth agosach rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a'r trydydd sector ehangach. Yn ymarferol, mae llwyddiant y nod hwn wedi amrywio ledled Cymru; mae nifer o ardaloedd wedi datblygu fforymau rhanbarthol a threfniadau cydweithredol sy'n dwyn darparwyr gwahanol ynghyd i rannu gwybodaeth, datblygu ymarfer da, a chryfhau'r system gofal gyffredinol, fodd bynnag nid yw hyn wedi digwydd ym mhob ardal.


Yr heriau o ran gweithredu

At ei gilydd, mae amcanion cadarnhaol datganoli yng Nghymru a'r ddeddfwriaeth allweddol a nodwyd uchod, wedi arwain at newid y gellir ei deimlo ar lawr gwlad. Fodd bynnag, gall y ffordd y caiff hyn ei weithredu deimlo'n gymysg, yn ddibynnol ar adnoddau, ac fel y mae'r adroddiad hwn yn dechrau ei amlygu, nid yw'r profiad yn un cadarnhaol i bawb ym mhob rhan o Gymru. Gall hyn greu sefyllfa lle ceir uchelgais a bwriad polisi optimistaidd a phellgyrhaeddol ar y naill law, ond gweithredu pesimistaidd a chyfyngedig ar y llall.

Hanes beiddgar

Mae'r canlynol yn ddyddiadau allweddol o ran datblygu polisiau ac arferion², yn enwedig o ran y modd y gwnaeth cymunedau yng Nghymru ymateb i sgandalau ynghylch cam-drin pobl ag anableddau dysgu, a sefydlu dull gweithredu newydd sy'n seiliedig ar y gymuned.

² Gwybodaeth wedi'i chymryd o: Y Brifysgol Agored (dd). Timeline of learning disability history. [Darllen](#); Pobl yn Gyntaf Caerdydd (2012). Evaluation Report: 'Stories about Ely Hospital'. [Darllen](#); Innovate Trust (2024) 50 years of independence: A look back at supported living in the UK. [Darllen](#).



³ Ysgrifennydd Gwladol dros Hawliau Cymdeithasol, Llywodraeth Sbaen (2023). *Case studies on international policy and implementation – Case 6: Deinstitutionalisation of People with intellectual Disabilities in Wales*. [Darllen](#).

⁴ Perry et al (2010). *Strategic Service Change: Development of Core Services in Wales, 1983–1995*. JARID. [Darllen](#).

3. Dull gweithredu

Mae'r ymchwiliad hwn yn adeiladu ar fethodoleg [Ending Extraction in the UK Care System](#) ac ar ymchwiliadau eraill a gynhaliwyd yn y maes hwn, sy'n ffurfio llyfrgell gynyddol o dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn gwasanaethau gofal ac wrth gomisiynu ledled y Deyrnas Unedig.


Eglurder ynghylch cysyniadau

Mae'r ymchwiliad hwn yn adeiladu ar y diffiniad a'r model a ddatblygwyd ar gyfer ein gwaith yn y sector gofal yn Lloegr, gan edrych ar ystyr "echdynnu" a'r prif ffyrdd y mae arian yn cael ei dynnu allan o'r ecosystem.

Echdynnu yw pan gaiff arian ei dynnu allan o'r system yn lle cael ei fuddsoddi ynddi. Mae hyn yn un o nodweddion darparwyr preifat corfforaethol, ac nid yw'n ddatblygiad damweiniol. Yn fras, mae dwy brif ffordd y mae echdynnu'n digwydd:

1. Sut mae'r cwmni wedi'i strwythuro – drwy berchnogaeth y cwmni, sut mae ei swyddogaethau busnes wedi'u strwythuro, a sut mae ei fuddsoddiadau a'i daliadau mewnol wedi'u trefnu.
2. Sut mae'r cwmni'n gweithredu – drwy'r dewisiadau a wneir ynglŷn â chymryd elw, talu didendau, a sut mae'n torri costau sy'n effeithio ar staff a'r rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau o ddydd i ddydd.

Ffigur 1. Y ffyrdd y mae arian yn cael ei echdynnu o'n systemau gofal



Ffynhonnell: Ending extraction in the UK Care System. [Darllen](#).

Cam un: nodi

Gwnaethom nodi darparwyr gwasanaethau gofal i bobl ag anabledau dysgu yng nghronfa ddata Arolygiaeth Gofal Cymru a thrwy chwilio am gontractau perthnasol gan

ddefnyddio ein darparwr data caffael a gwariant allanol, Tussell.⁵ Gwnaethom lawrlwytho a glanhau'r data hyn a chynnal gwiriad synnwyr gyda'r rhwydwaith o ddarparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru a gomisiynodd y gwaith hwn.

Cam dau: casglu

Gwnaethom gasglu data gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru ynghylch faint o arian y maent wedi'i wario gyda darparwyr gwasanaethau, lle mae'r data hyn ar gael. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau contractio Cymru gyhoeddi eu data ar wariant, felly mae Tussell yn defnyddio ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth i gael y data bob chwarter.⁶ Gan nad oes gofyniad i gyhoeddi, gall ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth gael eu gwrthod neu gael eu hateb yn rhannol (yn dibynnu ar y gost o ran amser i ymateb i'r cais).

Yna, gwnaethom gasglu data o gyfrifon ariannol y darparwyr hyn (lle'r oeddent ar gael) o'r cyfrifon a ffeiliwyd gyda Thŷ'r Cwmnïau.

Gwnaethom hefyd siarad â phobl sy'n gweithio yn y system er mwyn ddeall ei hanes, newidiadau i brosesau caffael ac arferion, a'u canfyddiadau o iechyd yr ecosystem.

Cam tri: dadansoddi

Gwnaethom ddadansoddi'r data o gyfrifon cwmnïau er mwyn amcangyfrif:

- eu proffidioldeb cyffredinol;
- faint o elw sydd wedi'i wneud yn seiliedig ar wariant gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Cymru; a
- faint o daliadau difidend a llog sydd wedi'u gwneud, yn seiliedig ar wariant gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Cymru.

Cam pedwar: rhannu'r canfyddiadau

Gwnaethom rannu'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg â'r rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn cynnal gwiriad synnwyr o ran y canlyniadau a chofnodi eu hymatebion i'r ymchwil. Gwnaeth hyn ein galluogi i wirio'r iaith a ddefnyddiwyd, cadarnhau'r hyn na ellir cyflwyno adroddiad yn ei gylch oherwydd diffyg data cynhwysfawr, a llywio ein myfyrdodau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

⁵ Mae Tussell yn blatfform ar-lein sy'n darparu cofnod o'r taliadau uniongyrchol a wneir rhwng awdurdod contractio a chyflenwr.

⁶ Mae ALLau Cymru yn cyhoeddi eu data ar wariant: Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg.

4. Ecosystem sy'n newid o ran gofal i bobl ag anabledau dysgu

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r hyn y gwnaethom ni fel ymchwilwyr lwyddo i'w ddarganfod am yr ecosystem gofal i bobl ag anabledau dysgu yng Nghymru: pwy sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau, lle y gellir olrhain gwariant cyhoeddus, a sut mae trefniadau contractio i'w gweld yn newid dros amser.

Mae'r darlun o reidrwydd yn anghyflawn, oherwydd nid yw'n ofynnol i awdurdodau contractio Cymru gyhoeddi data ar wariant yn rheolaidd. Ond mae hyd yn oed y darlun anghyflawn hwn yn datgelu system lle mae arian cyhoeddus yn llifo fwyfwy i ddarparwyr er-elw.


Faint o ddarparwyr sydd yng Nghymru?

Gwnaethon nodi 452 o gwmnïau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal sy'n gysylltiedig ag anabledau dysgu, ac mae 404 ohonynt yn endidau er-elw. O gyfeiriadur gwasanaethau AGC, gwnaethom gynnwys darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion ag anabledau dysgu, gwasanaethau cymorth yn y cartref (byw â chymorth), gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau lleoli oedolion. Gwnaethom hefyd nodi darparwyr drwy chwilio teitlau a disgrifiadau contractau a ddyfarnwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer mathau perthnasol o ofal (cartrefi gofal, cymorth yn y cartref, byw â chymorth, ac ati) a oedd yn darparu ar gyfer oedolion ag anabledau dysgu (gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, anghenion cymhleth, ac ati).

Gellir grwpio'r 452 o ddarparwyr a nodwyd o ran eu cofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (rheoleiddwyr gofal yng Nghymru a Lloegr yn y drefn honno) fel a ganlyn:

Ffigur 2: Cofrestriad darparwyr gofal sy'n gysylltiedig ag anabledau dysgu yng Nghymru gyda rheoleiddwyr gofal

Cofrestriad ag Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Comisiwn Ansawdd Gofal



Golwg o'r tu allan: gwariant


Yna, gwnaethom ddefnyddio cronfa ddata gwariant Tussell i chwilio am wariant gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Cymru ar y darparwyr hyn. Roedd data ar wariant ar gael ar gyfer 16 o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a thri o blith y saith bwrdd iechyd yng Nghymru (gweler Tabl A1 yn yr Atodiad am argaeledd y data ar lefel awdurdod) – fel y soniwyd uchod, nid yw'n ofynnol i awdurdodau contractio yng Nghymru gyhoeddi eu data ar wariant. Mae'r anallu i olrhain gwariant cyhoeddus yn gyson ledled Cymru ynddo'i hun yn un o ganfyddiadau pwysig y gwaith ymchwil hwn.

Canfuwyd 333 o'r 452 o ddarparwyr a nodwyd yn y set ddata gwariant hefyd. Mae'n bosibl bod y rhai sydd ar goll wedi gwario gydag awdurdodau contractio nad ydynt yn darparu data ar wariant i Tussell. Mae'r data ar gyfer 2025/26 yn anghyflawn oherwydd oedi wrth ddychwelyd data ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, felly Er-elw dadansoddiad.

Ar gyfer y 333 o ddarparwyr hynny y nodwyd gwariant ar eu cyfer, cynyddodd cyfanswm y gwariant blynyddol a dderbyniwyd oddi wrth awdurdodau contractio flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gyrraedd £391m ym mlwyddyn ariannol 2024/25 (gweler tabl A2 a Siart A1 yn yr atodiad).

Mae Ffigur 3 isod yn awgrymu bod y gyfran a gaiff ei gwario gyda darparwyr er-elw wedi cynyddu dros amser; y cyfanswm a dderbyniwyd gan ddarparwyr er-elw dros y cyfnod o ddeng mlynedd yw £1.2bn (65 y cant o'r cyfanswm) a'r cyfanswm a dderbyniwyd gan ddarparwyr nid-er-elw yw £0.6bn (35 y cant). Noder y gallai'r gwerthoedd isel ar gyfer blynyddoedd cynharach fod oherwydd data ar wariant coll, neu oherwydd bod darparwyr gwahanol yn gweithredu ar y pryd nad ydynt bellach wedi'u cofrestru ag AGC ac, felly, nad ydynt wedi'u cynnwys yma.


Ffigur 3: Gwariant Cymru gyda darparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu, yn ôl statws er-elw/nid-er-elw



Ffynhonnell: Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Tussell.

Mae gwariant yn gynyddol gysylltiedig â chontractau a ddyfernir drwy drefniadau tendro cystadleuol, sy'n cael eu dominyddu gan ddarparwyr preifat. Gwnaethom edrych ar ddata cyhoeddus ar y contractau sydd gan awdurdodau Cymru gyda'r darparwyr a nodwyd. Roedd data ar gontractau o byrth caffael ar gael ar gyfer pob un o'r 29 o awdurdodau contractio. O blith ein 452 o ddarparwyr, canfuwyd 112 ohonynt yn y data ar gontractau. Mae'r data yn awgrymu defnydd cynyddol o drefniadau contractiol a ddyfernir drwy broses dendro gystadleuol, gyda gwerth dros £3bn o gontractau wedi'u dyfarnu i'r darparwyr a nodwyd yn ystod y tair blynedd lawn ddiwethaf, wedi'u dominyddu gan ddau gontract gwerth bron £2bn a ddyfarnwyd gan un cyngor ar gyfer gwasanaethau cymorth yn y cartref (gweler y data yn yr Atodiad). Wrth edrych ar ddata contractau yn ôl y math o ddarparwr yn Ffigur 4 isod, gwelwn unwaith eto gynnydd dros amser o ran contractio gyda darparwyr preifat.

Ffigur 4: Gwerthoedd contractau yng Nghymru gyda darparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu, yn ôl statws er-elw/nid-er-elw



Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Tussell.

5. Echdynnu: dilyn yr arian⁷

Dangosodd Adran 4 fod cyfran gynyddol o wariant cyhoeddus gweladwy i bob golwg yn llifo i ddarparwyr er-elw. Mae'r adran hon yn gofyn beth sy'n digwydd i'r arian hwnnw ar ôl iddo gyrraedd cwmnïau darparwyr. Gan ddefnyddio cyfrifon cwmnïau, rydym yn amcangyfrif proffidioldeb, difidendau, taliadau llog a phatrymau cyflog er mwyn deall i ba raddau y mae arian cyhoeddus yn cael ei gadw a'i ailfuddsoddi mewn gofal neu'n cael ei dynnu o ecosystem gofal Cymru.

5.1 Proffidioldeb yn ôl math o ddarparwr

Mae Ffigur 5 isod yn dangos bod gan ddarparwyr mawr (nad ydynt yn BBaChau) er-elw yng Nghymru gyfraddau elw uwch nag unrhyw fath arall o ddarparwr, wedi'u dilyn gan fusnesau bach a chanolig (BBaChau) er-elw, ac yna busnesau bach a chanolig nid-er-elw a busnesau mawr nid-er-elw.⁸ Roedd maint yr elw ar gyfartaledd yn 14 y cant yn achos darparwyr mawr, er-elw; 12 y cant yn achos BaChau er-elw; saith y cant yn achos BBaChau nid-er-elw a 0.5 y cant yn achos darparwyr nid-er-elw nad ydynt yn BBaChau. Rydym yn


⁷ I gael manylion llawn am y dulliau a ddefnyddiwyd, gweler yr Atodiad: Data Ariannol a Dull Methodolegol

⁸ Roedd data ar elw ar gael ar gyfer tua 110 o blith y 452 o ddarparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu a nodwyd (Gweler Tabl A4 yn yr Atodiad i gael rhagor o fanylion). Y mesur elw yw EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddiad), sef dangosydd ariannol ar gyfer proffidioldeb gweithredol a llif arian, nad yw gwahaniaethau yn strwythur ariannu cwmnïau yn dylanwadu arno. Caiff EBITDA ei rannu ag amcangyfrif gorau Data City o'r trosiant cyfredol er mwyn cyfrifo maint yr elw.

dilyn categorïau maint cwmnïau fel y'u cyflwynir i Dŷ'r Cwmnïau, sy'n nodi bod gan BBaChau lai na 250 o staff, trosiant o lai na £54m, neu gyfanswm mantolen o lai na £27m.⁹

Y strwythur nid-er-elw mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd 'Cwmni Preifat Cyfyngedig Drwy Warant Heb Gyfalaf Cyfranddaliadau', ac er bod y sefydliadau hyn yn nodi eu gwarged fel 'elw' yn eu cyfrifon, caiff hwn ei ailfuddsoddi gan nad oes ganddynt gyfranddalwyr.

Ffigur 5: Cyfradd elw gyfartalog (EBITDA) yn ôl math o gwmni



Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Data Gardener.

Mae sawl ffordd o amcangyfrif yr elw a wneir gan ddarparwyr gofal, ac mae manteision ac anfanteision i bob dull. Y dull cyntaf, a'r dull a ffeirir fwyaf, yw cyfuno data ar broffidioldeb y cwmni â gwariant gwirioneddol gan y sector cyhoeddus y mae'r cwmni wedi'i dderbyn. Fodd bynnag, gan fod data ar wariant ar goll ar gyfer 10 awdurdod contractio yng Nghymru, bydd hyn yn arwain at danamcangyfrif sylweddol o ran cyfanswm gwerth yr elw sy'n cael ei echdynnu. Serch hynny, mae'n ffordd effeithiol o ddangos tueddiadau dros amser yn achos yr awdurdodau hynny y mae data ar wariant ar gael ar eu cyfer.

Gwnaethom amcangyfrif cyfanswm yr elw a wnaed gan ddarparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu o wariant y sector cyhoeddus drwy gymhwyso maint elw (EBITDA) y cwmnïau yn gyffredinol – neu faint yr cyfartalog uchod, lle nad oedd y wybodaeth hon ar gael¹⁰ – at y gwariant gyda phob cwmni a gofnodwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Ar gyfer y cyfrifiad hwn – sy'n gweithredu fel procsi ar gyfer echdynnu – rydym yn

⁹ Paratoi a ffeilio cyfrifon Tŷ'r Cwmnïau. Tŷ'r Cwmnïau. Diweddarwyd 30 Mehefin 2026.


¹⁰ Nid yw pob cwmni'n cyflwyno data ariannol llawn mewn blwyddyn benodol am amryw o resymau, gan gynnwys gofynion adrodd llai beichus ar gyfer BBaChau a chwmnïau sy'n rhan o grŵp mwy ac felly'n cael eu cynnwys yn adroddiadau cyfunol y grŵp.

hepgor darparwyr nid-er-elw yn gyfan gwbl, gan fod eu helw yn cael ei ailfuddsoddi. Mae hyn yn gadael 245 o ddarparwyr er-elw sydd wedi'u rhestru yn y data ar wariant ac felly wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

Rydym yn amcangyfrif, yn y pum mlynedd o 2020-2024, fod £106m wedi'i wneud mewn elw o wariant gan y sector cyhoeddus, a bod £44m (42 y cant) o'r swm hwnnw wedi'i wneud gan sy'n a oedd yn eiddo i riant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u cofrestru mewn hafanau treth neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat (gweler Tabl A5 yn yr Atodiad i gael manylion llawn).


Mae Ffigur 6 isod yn dangos cynnydd sylweddol yn yr elw sy'n mynd i gwmnïau mawr sy'n eiddo i riant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u lleoli mewn hafanau treth a/neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat.

Ffigur 6: Elw (EBITDA) o wariant yn ôl math o gwmni a pherchnogaeth



Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Tussell a Data Gardener.


Ffigur 7: Elw (EBITDA) o wariant dros amser yn ôl math o gwmni



Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Tussell a Data Gardener.

Dros yr un cyfnod mae cyfran yr elw sy'n mynd i ddarparwyr sydd â rhiant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u lleoli mewn hafanau treth a/neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat wedi cynyddu, gan ragori ar ddarparwyr eraill yn 2023/24.

Ffigur 8: Elw (EBITDA) o wariant dros amser yn ôl perchnogaeth y cwmni



Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Tussell a Data Gardener.

Mae'r tueddiadau hyn yn bwysig oherwydd bod strwythurau perchnogaeth yn allweddol o ran i ble mae'r elw'n llifo yn y pen draw. Wrth i gyfran gynyddol o elw gronni i ddarparwyr

sy'n gysylltiedig â hafanau treth tramor ac ecwiti preifat, mae cwestiynau'n codi ynghylch i ba raddau y mae unrhyw warged yn cael ei gadw a'i ailfuddsoddi yng nghymunedau Cymru.


5.2 Difidendau a llog: dulliau echdynnu gweladwy

Mae taliadau difidend a llog yn bwysig oherwydd gallant weithredu fel ffordd o echdynnu arian o gwmnïau gweithredol, yn enwedig pan fydd cwmnïau'n rhan o grwpiau corfforaethol ehangach neu strwythurau perchnogaeth a gyllidir drwy ddyled.

Amcangyfrifwyd taliadau difidend a llog y gellir eu priodoli i weithgarwch sy'n gysylltiedig â gofal i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru drwy gymhwyso'r cymarebau difidend a llog a gofnodwyd gan bob cwmni (fel cyfran o drosiant) at werth y gwariant gyda phob darparwr gofal i bobl ag anableddau dysgu. Yn unol â Thabl A4 yn yr Atodiad, dim ond hyd at 20 o gwmnïau a gofnododd ddifidendau mewn unrhyw flwyddyn benodol, a hyd at 43 a gofnododd dreulïau llog. Yn wahanol i elw, ni chafodd gwerthoedd coll eu priodoli ar gyfer difidendau na llog oherwydd amrywiaeth o ran strwythurau cwmnïau, sy'n golygu bod yr amcangyfrifon a gyflwynir yma yn debygol o danamcangyfrif cyfanswm yr arian a echdynnwyd.

Fel y dangosir yn Ffigur 9 isod, mae taliadau difidend a llog o wariant wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2019/20 a 2023/24 amcangyfrifwyd bod £7.73m wedi'i dalu mewn difidendau o wariant yng Nghymru, ac o'r swm hwnnw roedd £1.78m (23 y cant o'r cyfanswm) gan ddarparwyr sy'n eiddo i riant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u cofrestru mewn hafanau treth neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat. Dros yr un cyfnod amcangyfrifir bod £7.69m wedi'i dalu mewn taliadau llog o wariant yng Nghymru, ac o'r swm hwnnw roedd £7.01m (91 y cant o'r cyfanswm) gan ddarparwyr sy'n eiddo i riant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u cofrestru mewn hafanau treth neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat.

Ffigur 9: Difidendau a thaliadau llog o wariant ar ofal i bobl ag anableddau dysgu



Ffynhonnell: Dadansoddiad CLES o ddata Tussell a Data Gardener.

5.3 Dadansoddiad o'r cyfarwyddwyr ar y cyflogau uchaf

Mae cyflogau isel cyflogeion yn y sector gofal yn fecanwaith posibl pwysig ar gyfer echdynnu, yn enwedig o gymharu â chyflogau uwch-reolwyr. Nifer bach o gwmnïau er-elw, sef 16, a ddarparodd wybodaeth am eu cyfarwyddwyr ar y cyflogau uchaf. Gwnaeth nifer mwy, sef 103 (gan gynnwys darparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector) gyflwyno data ar nifer eu cyflogeion a chyfanswm cyflogau, gan ein galluogi i gyfrifo'r cyflog cyfartalog fesul cyflogai. Gwelwn fod cyfarwyddwyr yn y cwmnïau sy'n cyflwyno data wedi cael eu talu rhwng 13 a 22 gwaith yn fwy na chyflog cyfartalog cyflogeion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd darparwyr nid-er-elw yn talu cyflogau rhwng pump a 10 y cant yn uwch na chwmnïau er-elw – rhwng £1000 a £2600 yn fwy y flwyddyn.

Tabl 1: Cyflog cyfarwyddwyr a chyflogeion

	2021/22	2022/23	2023/24
Y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf - cyfartaledd (cwmnïau er-elw yn unig)	£435,532	£523,927	£345,131
Cyflogau fesul cyflogai – cyfartaledd	£22,582	£24,552	£26,036
- <i>Cwmnïau er-elw yn unig</i>	£22,144	£23,496	£25,628
- <i>Sefydliadau nid-er-elw yn unig</i>	£23,166	£26,136	£26,638
Cymhareb cyflog cyfarwyddwyr i gyflogeion (cwmnïau er-elw yn unig)	19.7	22.3	13.5

Gan nad oedd sefydliadau nid-er-elw yn cyflwyno gwybodaeth am eu cyfarwyddwyr ar y cyflogau uchaf yn nata Tŷ'r Cwmnïau, gwnaethom gynnal arolwg ymhlith y darparwyr gofal i bobl ag anabledau dysgu yn y trydydd sector a gomisiynodd y gwaith ymchwil hwn. Cawsom saith ymateb a chanfuom mai'r cyflog uchaf cyfartalog a dalwyd yn 2025/26 oedd £119,262 – sef tua thraean o werth cyflog y cyfarwyddwyr ar y cyflogau uchaf yn y sector preifat yn 2023/24. Mae'r data hyn yn awgrymu mai dim ond rhwng pedair a phum gwaith cyflog cyfartalog cyflogeion a gafodd cyfarwyddwyr sefydliadau nid-er-elw. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu ymrwymadau bwriadol ymhlith darparwyr nid-er-elw i osod terfynau ar y gymhareb rhwng cyflog cyfarwyddwyr a chyflog cyflogeion.

5.4 Amcangyfrif o'r terfyn uchaf: cyfanswm elw darparwyr

Oherwydd y diffyg tryloywder a grybwyllwyd uchod ynghylch data ar wariant, mae'r canlyniadau a gyflwynir uchod yn tanamcangyfrif cyfanswm gwerth yr elw a gynhyrchwyd o wariant cyhoeddus yn sylweddol. Dull arall yw edrych ar elw cyffredinol darparwyr gofal yn ei gyfanrwydd, ar draws holl weithrediadau'r cwmnïau, h.y. nid yn unig yr elw sy'n gysylltiedig â gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nid amcangyfrif o elw o wariant cyhoeddus yng Nghymru yw hyn – bydd yn cynnwys elw o wasanaethau gofal a ariennir yn breifat – felly ni ddylid ei gymharu â'r ffigurau a gyflwynwyd yn gynharach. Yn hytrach, mae'n rhoi syniad o broffidioldeb cyffredinol darparwyr sy'n gweithredu yn yr ecosystem hon.

Yn y flwyddyn ddiweddaraf, gwnaed tua £345m o elw gan y 379 o ddarparwyr preifat y mae gennym ddata ar eu cyfer – naill ai elw a gofnodwyd yn uniongyrchol neu amcangyfrifon gan ddefnyddio maint yr elw cyfartalog uchod ynghyd â throsiant.¹¹ O'r

¹¹ Amcangyfrif o gyfanswm yr elw ar gyfer y cyfnod diweddaraf, gan ddefnyddio amcangyfrif gorau TDC o'r trosiant cyfredol, a gorswm EBITDA cyfartalog 2023/24 yn ôl math o gwmni (ar gyfer y gwerthoedd coll hynny)

cyfanswm elw hwn, aeth £188m (54 y cant o'r cyfanswm) i ddarparwyr sy'n eiddo i riant-gwmnïau terfynol wedi'u lleoli mewn hafanau treth a/neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys elw o wasanaethau a ddarperir yn Lloegr - mae 80 o'r darparwyr a ddewiswyd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal ac felly gallant weithredu yn Lloegr (gweler Ffigur 2 uchod).

Os ydym yn eithrio'r cwmnïau sydd hefyd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr, ac yn canolbwyntio ar y 359 o blith y 452 o ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn unig, ac yna'n canolbwyntio ymhellach ar y 328 ohonynt sy'n ddarparwyr er-elw, gwelwn gyfanswm elw o £100m. O'r swm hwn aeth £18m (18 y cant) ohono i ddarparwyr sy'n eiddo i riant-gwmnïau terfynol sydd wedi'u lleoli mewn hafanau treth a/neu sy'n eiddo i gwmnïau ecwiti preifat.¹²

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau yn adran 5 yn awgrymu bod gwasanaethau gofal i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru yn dod yn fwyfwy dibynnol ar ddarpariaeth er-elw, a bod cyfran gynyddol o wariant cyhoeddus adnabyddadwy yn gysylltiedig â chwmnïau sy'n arddangos nodweddion a gysylltir yn aml â'r hyn rydym wedi'i ddiffinio fel echdynnu yn yr adroddiad hwn.

¹² Mae hyn yn amlwg yn tanamcangyfrif yr elw a wnaed o ofal cyhoeddus i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru gan ei fod yn eithrio gweithredwyr sydd wedi'u cofrestru ag AGC a'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

6. Ein myfyrdodau

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn rydym wedi'i ddysgu fel ymchwilwyr o'r broses hon.

(Diffyg) gwelededd

Pan gyflwynwyd y canlyniadau cychwynnol i'r rhwydwaith o ddarparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu, roedd llawer yn yr ystafell wedi synnu at lefel yr echdynnu. I grynhoi ychydig, mae echdynnu wedi'i ymgorffori fwyfwy yn yr ecosystem gofal i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru – hyd yn oed gyda data anghyflawn ar wariant, gellir olrhain symiau sylweddol o arian cyhoeddus i elw, difidendau a thaliadau llog, gyda chyfran gynyddol yn gysylltiedig â darparwyr mwy a strwythurau perchnogaeth mwy cymhleth. Gwnaeth darparwyr er-elw £106m o elw o adnabyddadwy gan y sector cyhoeddus yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. O'r swm hwn, gwnaed £44m (42 y cant) gan ddarparwyr a oedd, yn y pen draw, yn gysylltiedig â hafanau treth a/neu ecwiti preifat.

Nid oedd hyd yn oed y rhai a oedd wedi'u gwreiddio ym maes gwasanaethau a chymuned wedi sylweddoli i ba raddau yr oedd gwariant yn symud tuag at ddarparwyr preifat, yn enwedig y rhai â lefelau uwch o elw a pherchnogaeth dramor. Yn ogystal, awgrymodd un darparwr efallai nad oes gan bob awdurdod lleol ddarlun llawn o'r hyn y mae'n ei wario, a ble y mae'n ei wario.

Mae'r canfyddiad hwn yn cyflwyno cyfle i'r llywodraeth newydd archwilio lefelau uwch o atebolrwydd. Gall hyn ddechrau drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd gyhoeddi eu data ar wariant fel bod y rhai sy'n gweithio yn yr ecosystem a dinasysddion yn gwybod ble mae buddsoddiad a gwariant yn digwydd, gan osgoi'r diffyg cydberthynas a gyflwynir uchod rhwng contractau a data ar wariant.

Pwy sy'n elwa? A phwy nad yw'n elwa?

Mae cyfran y farchnad sydd gan ddarparwyr preifat bellach yn sylweddol fwy nag yr oedd yn 2019. Mae rhai arwyddion pryderus o'r data: y lefelau elw cynyddol; y naid enfawr mewn darparwyr â rhiant-gwmnïau dramor neu wedi'u cefnogi gan ecwiti preifat yn 2023/24; a'r lefel isel o elw/warged a wneir gan y sector nid-er-elw, sy'n cyfyngu ar ei allu i fuddsoddi a gwrthsefyll amodau ariannol heriol.

Mae lefel yr elw, y difidendau a'r taliadau llog drwyddi draw sy'n mynd i gwmnïau mewn hafanau treth ac a gefnogir gan ecwiti preifat yn cynrychioli symiau sylweddol o arian yn gadael economïau lleol yng Nghymru. Arian y gellid ei ailgyfeirio i fuddsoddi mewn staff, mewn adeiladau, ac mewn gwasanaethau. Mae deall maint yr her a ble a sut mae'r arferion hyn yn digwydd yn fan cychwyn ar gyfer cynllunio i gael gwared arnynt wrth gomisiynu a chaffael.

Mae'r data ar gyflogau a'n sgysiau â darparwyr yn amlygu'r her o ddarparu gwaith â chyflog teg i bobl leol sydd ar flaen y gad o ran darparu gofal. Er bod angen i bob

darparwr dalu'r cyflog byw gwirioneddol, mae rhai darparwyr mewn rhai ardaloedd wedi nodi bod diffyg cyfatebiaeth rhwng lefel y cyllid sydd ar gael i fodloni'r gofyniad hwn a darparu gwasanaethau; ac o'r data uchod, mae diffyg cyfatebiaeth amlwg iawn rhwng y rhai sy'n darparu gwasanaethau a'r rhai ar frig sefydliadau a ysgogir gan elw. Mae'n debyg y bydd llywodraeth newydd yn dymuno archwilio gwaith teg a da i bawb sy'n darparu ym maes gofal cymdeithasol.

Y datgysylltiad rhwng polisi ac ymarfer

Mae'r cyfweiliadau a'r gweithdai a gynhaliwyd gennym drwy gydol yr ymchwiliad hwn wedi amlygu datgysylltiad sylweddol rhwng amcanion polisi blaengar Llywodraeth Cymru a'r arferion cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar lawr gwlad. O fewn adran cyd-destun yr adroddiad hwn, gwnaethom amlygu nifer o amcanion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn enwedig o ran llais a rheolaeth i unigolion a dyletswyddau Adran 16 o ran hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Wrth fyfyrio ar yr hyn a glywsom, mae'n ymddangos bod arferion comisiynu mewn sawl rhanbarth yng Nghymru yn symud yn ôl yn hytrach nag ymlaen, ac er bod cydberthnasau gwaith cydfuddiannol cryf yn dal i fodoli mewn rhai ardaloedd, mae llawer o'r rhain wedi diflannu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr hyn sy'n ymddangos fel pe bai'n dod yn fwyfwy arferol erbyn hyn yw dibyniaeth ar brosesau caffael trafodiadol a ysgogir gan bris, yn hytrach na chomisiynu, cydweithio a chydgyhyrchu sy'n seiliedig ar werthoedd.

Rydym wrth gwrs yn cydnabod bod awdurdodau lleol dan bwysau ariannol sylweddol, ac yn gweithredu mewn amgylchedd lle mae'r galw am wasanaethau'n parhau i gynyddu. Gwnaeth ein cyfweleion hefyd esbonio bod llawer o gynghorau wedi colli staff profiadol, wedi uno rolau, ac yn meddu ar lai o gapasiti i ymgymryd â llawer o'u dyletswyddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gallai'r ddibyniaeth ar brosesau caffael trafodiadol a ysgogir gan bris fod yn un o'r ffyrdd y mae sefydliadau mawr yn y sector preifat yn cynyddu eu cyfran o'r farchnad o'r sector byw â chymorth i bobl ag anabledau dysgu yng Nghymru.

Yn seiliedig ar asedau yn hytrach nag ar anghenion

Yn y cyfweiliadau, tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn batrwm o farchnadeiddio, lle mae darparwyr mawr er-elw yn cynnig prisiau is er mwyn cael mynediad i farchnadoedd lleol, ac yn cynyddu eu cyfran o'r ddarpariaeth yn raddol. Gall darparwyr preifat ddefnyddio cyfalaf i adeiladu asedau ac yna "cloi" awdurdodau lleol mewn trefniadau darparu hirdymor, gan gyfyngu ar hyblygrwydd yn y dyfodol.

Mae wedi bod yn ddiddorol archwilio'r pwyslais y mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn ei roi ar adeiladu datblygiadau byw â chymorth newydd. Ymddengys bod cynghorau'n canolbwyntio ar ddatblygu asedau yn hytrach nag ar anghenion. Fodd bynnag, mae llawer yn dadlau, mewn gwirionedd, fod y cyfleusterau newydd, mwy o faint hyn yn aml yn darparu 'gor-ofal' a bod gan breswylwyr lai o ymreolaeth o'i gymharu â'r gwasanaethau byw â chymorth a ddarparwyd yn flaenorol mewn lleoliadau cymunedol. Gall cyfleusterau

newydd fod yn ystafelloedd yn hytrach na fflatiau, lle nad oes gan breswylwyr eu cyfleusterau coginio eu hunain yn aml. Ymddengys eu bod yn cael eu cynllunio i ynysu pobl yn hytrach na hyrwyddo annibyniaeth; mae hyn eto yn groes i egwyddorion sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Argyfwng hunaniaeth?

O gamau cynnar hwn, daethom yn ymwybodol o ganfyddiadau awdurdodau lleol o ddarparwyr gwasanaethau byw â chymorth i bobl ag Anableddau Dysgu yn y trydydd sector. Mae Adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn tynnu sylw at fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau'r trydydd sector, ac roeddem yn disgwyl gweld dealltwriaeth o'r nodweddion unigryw y gall y sefydliadau hyn eu cynnig o ran cynllunio gwasanaethau, darparu ac ailfuddsoddi elw. Fodd bynnag, clywsom fod awdurdodau lleol yn aml yn eu hystyried yn rhan o fâs homogenaidd o ddarparwyr y tu allan i awdurdodau lleol.

Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r sector fyfyrir arno, yn enwedig o ran sut mae'n trafod ac yn hyrwyddo ei fodelau gwasanaeth.

Mae yna ganfyddiad hefyd mai dim ond darparwyr preifat all ymdrin ag achosion o anghenion mwy cymhleth. Efallai fod hyn wedi bod yn wir yn y gorffennol, ond mae'r trydydd sector yn parhau i esblygu o ran ei gapasiti a'i allu ac mae angen i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o hyn.

Mae angen ecosystem gref ar ofal

Mae angen gweledigaeth o ran pa fath o ecosystem sydd ei heisiau a'i hangen, gan adeiladu ar y wybodaeth a'r arferion sydd wedi'u datblygu yng Nghymru a chanolbwyntio ar anghenion pobl, yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau sy'n gweithio ar gyfer lleoedd a chymunedau penodol. Mae hyn yn gofyn am gynllunio ar gyfer y galw a lle mae'n ffitio o fewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, a all alluogi darparwyr i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae hefyd yn gofyn am sgwrs onest ynglŷn â pha adnoddau sy'n ofynnol er mwyn darparu llwybrau gwasanaethau gofal – p'un a yw pobl yn trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, yn cynyddu neu'n lleihau eu gofynion gofal, neu'n trosglwyddo rhwng deiliaid cyllidebau.

Mae gofal yn berthynol, o ran y ffordd y caiff ei ddylunio, ei gynllunio a'i ddarparu. Mae angen digon o adnoddau ar dimau awdurdodau lleol a'r sefydliadau sy'n darparu gofal i feithrin cydberthnasau, dylunio ac addasu gwasanaethau, a darparu gofal sy'n sicrhau urddas, ni waeth beth fo statws cyfreithiol y sefydliad. Mae angen arian hefyd i greu'r gwarged gofynnol i arloesi y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Yn aml, nid oes gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd ariannol na'r gallu sefydliadol i gefnogi dulliau gweithredu newydd, gan olygu mai dim ond pan ellir sicrhau arbedion ariannol ar unwaith y caiff datblygiadau arloesol eu rhoi ar waith. Mae darparwyr yn wynebu cyfyngiadau tebyg, ac yn gweithredu o fewn terfynau ariannol tynn heb y diogelwch ariannol hirdymor sydd ei angen i fuddsoddi mewn syniadau newydd.

7. Atodiad

Tabl A1a: Argaeledd data ar wariant, yn ôl ardal Bwrdd Iechyd:

Ardal Bwrdd Iechyd	Awdurdod contractio	A oes data ar wariant ar gael ar ei gyfer?
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Oes
	Cyngor Sir Fynwy	Oes
	Cyngor Dinas Casnewydd	Oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Oes
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Nac oes
	Cyngor Sir Ynys Mon	Oes
	Cyngor Gwynedd	Nac oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Nac oes
	Cyngor Sir Dinbych	Oes
	Cyngor Sir y Fflint	Nac oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Oes
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Nac oes
	Cyngor Sir Caerdydd	Oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morganwg	Oes
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Nac oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Nac oes
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Nac oes
	Cyngor Sir Caerfyrddin	Oes
	Cyngor Sir Ceredigion	Oes
	Cyngor Sir Penfro	Oes
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Oes
	Cyngor Sir Powys	Oes
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Nac oes
	Dinas a Sir Abertawe	Nac oes
	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Oes

Tabl A1b: Y rheswm nad oes data ar wariant ar gael, yn ôl awdurdod

Awdurdod contractio	Y rheswm nad oes data ar gael
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Ni anfonwyd cais Rhyddid Gwybodaeth
Cyngor Gwynedd	Wedi gwrthod darparu - gormod o waith i echdynnu/paratoi'r data
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Wedi cydnabod y cais Rhyddid Gwybodaeth ond heb anfon data


Cyngor Sir y Fflint	Wedi cydnabod y cais Rhyddid Gwybodaeth ond heb anfon data
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Ni anfonwyd cais Rhyddid Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Data 2018 yn unig a dderbyniwyd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Anfonwyd sawl cais Rhyddid Gwybodaeth, dim ymateb
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Ni anfonwyd cais Rhyddid Gwybodaeth
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Ni anfonwyd cais Rhyddid Gwybodaeth
Dinas a Sir Abertawe	Wedi gwrthod darparu

Ffynhonnell: Tussell

Tabl A2: Gwariant gyda darparwyr gofal i bobl ag anabledau dysgu a nodwyd, yn ôl ardal Bwrdd Iechyd

Ardal bwrdd iechyd (gan gynnwys gwariant yr ALI)	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	Cyfanswm yn ôl ardal
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	2.6	9.7	17.8	18.6	25.7	49.9	51.9	53.9	78.2	70.3	36.7	415.2
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	3.3	3.5	3.9	4.3	5.2	5.4	5.6	6.6	18.9	32.2	16.5	105.3
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	7.7	31.1	35.9	38.4	38.1	44.6	45.8	59.1	64.8	66.4	55.1	487.2
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Dim data	Dim data	Dim data	Dim data	Dim data	0.6	1.8	14.6	15.2	17.2	6.0	55.5
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	7.6	33.8	34.7	39.1	55.1	85.8	92.7	99.5	130.7	143.2	101.7	823.7
Ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Dim data	Dim data	Dim data	0.1	0.0	1.5	4.2	34.1	40.6	36.9	25.7	143.1
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Dim data	Dim data	Dim data	Dim data	Dim data	Dim data	Dim data	2.4	25.0	24.5	Dim data	51.9
Cyfanswm yn ôl blwyddyn	21.2	78.1	92.3	100.4	124.0	188.0	202.0	270.3	373.4	390.8	241.7	2,082

Ffigur A1: Gwariant gyda darparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu a nodwyd, yn ôl ardal Bwrdd Iechyd




DS: gall gwerthoedd isel ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol ac ardal bwrdd iechyd adlewyrchu data coll yn hytrach na diffyg gwariant

Tabl A3: Gwerthoedd contractau yn ôl ardal Bwrdd Iechyd

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026	Cyfanswm
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	3.64	7.16	0.38	2.26	2.11	0.86	16.35	5.37	1,940.26	4.62	42.42	4.89	2,030.34
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	-	2.98	3.74	0.98	119.66	0.22	2.34	35.85	-	3.12	418.27	0.70	587.86
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	0.56	-	0.00	0.01	110.63	0.01	0.01	0.00	3.73	-	5.38	0.65	120.99
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	2.72	20.93	-	1.75	31.34	4.54	5.90	4.82	7.40	396.52	36.49	17.17	529.58
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	-	-	-	-	2.01	1.29	0.00	5.00	6.28	4.50	18.93	3.20	41.22
Ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	-	0.13	0.73	2.18	1.44	-	-	-	0.04	0.90	240.48	8.42	254.32
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	-	-	2.20	1.24	2.01	1.42	2.47	-	4.70	1.40	0.84	7.02	23.29
Cyfanswm	6.92	31.20	7.05	8.42	269.20	8.33	27.07	51.05	1,962.42	411.07	762.80	42.05	3,587.61

Ffigur A2: Gwerthoedd contractau yn ôl ardal Bwrdd Iechyd



Tabl A4: Nifer y cwmnïau sy'n cofnodi newidynnau ariannol yn ystod pob blwyddyn

Diwedd y flwyddyn ariannol:	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Trosiant	0	1	1	1	0	0	2	37	103	101	111	110	74
EBITDA		0	0	0	0	0	2	38	105	101	113	111	74
Elw gweithredol	0	0	0	0	0	0	2	27	60	56	64	63	35
Traul Llog		0	0	0	0	0	2	19	43	34	40	39	19
Trethiant	0	0	0	0	0	0	2	28	58	56	58	64	35
Dibrisiant	1	1	0	0	0	0	4	123	287	292	314	312	184
Elw ar ôl treth	0	0	0	0	0	0	2	38	106	101	112	111	74
Difidendau		0	0		0	0	1	6	19	20	19	14	9

DS: Mae EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddiad) yn ddangosydd ariannol ar gyfer proffidioldeb gweithredol a llif arian

Atodiad: Data Ariannol a Dull Methodolegol

Nod yr ymchwiliad hwn oedd ceisio deall hyd a lled a natur y broses o wneud elw ac echdynnu wrth ddarparu gwasanaethau o fewn ecosystem byw â chymorth anableddau dysgu Cymru. Mae'n adeiladu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn [Ending Extraction in the UK Care System](#), gan addasu'r dull hwnnw i gyd-destun penodol Cymru ac i'r data sydd ar gael ar ddarparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu, gwariant y sector cyhoeddus, cyfrifon cwmnïau a strwythurau perchnogaeth.

Y cam cyntaf oedd nodi ecosystem y darparwyr. Gwnaethom nodi 452 o gwmnïau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal sy'n gysylltiedig ag anableddau dysgu yng Nghymru. Nodwyd darparwyr drwy gyfeiriadur gwasanaethau Arolygiaeth Gofal Cymru a thrwy ddefnyddio data contractau cyhoeddus ar gyfer mathau perthnasol o ofal, gan gynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth yn y cartref, gwasanaethau byw â chymorth, gwasanaethau lleoli oedolion, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig. Gwnaethom gynnwys darparwyr sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, y rhai sydd â chontractau yng Nghymru ac sydd hefyd wedi cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr, a darparwyr eraill a nodwyd drwy ddata contractau. Cynhaliwyd gwiriad synnwyr ar y rhestr ganlyniadol gyda'r rhwydwaith o ddarparwyr gofal i bobl ag anableddau dysgu a gomisiynodd y gwaith hwn.

Yr ail gam oedd olrhain gwariant cyhoeddus gyda'r darparwyr hyn. Cafwyd data ar wariant gan Tussell, sy'n casglu data ar daliadau uniongyrchol gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth lle na chyhoeddir data yn rheolaidd. Roedd data ar wariant ar gael ar gyfer 16 o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a thri o blith y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Gan nad yw'n ofynnol i awdurdodau contractio Cymru gyhoeddi data ar wariant yn rheolaidd, mae'r dadansoddiad o reidrwydd yn anghyflawn. Mae'r cyfyngiad hwn ynddo'i hun yn ganfyddiad pwysig: mae'n golygu y dylid darllen y ffigurau yn yr adroddiad hwn fel darlun rhannol o wariant cyhoeddus adnabyddadwy, yn hytrach na darlun cyflawn o'r holl arian cyhoeddus sy'n llifo i'r sector.

Y trydydd cam oedd dadansoddi cyfrifon cwmnïau. Casglwyd data ariannol ar gyfer y 452 o ddarparwyr gan The Data City a Data Gardener, ac mae'r ddau ohonynt yn tynnu'n bennaf ar gyfrifon a ffeiliwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau. Nid yw pob cwmni'n cofnodi'r un newidynnau ariannol, yn enwedig oherwydd y gofynion adrodd llai beichus sydd ar gwmnïau llai o faint a'r defnydd o gyfrifon grŵp cyfunol. Lle bo modd, gwnaethom ddefnyddio data lefel cwmni ar drosiant, EBITDA,¹³ elw ar ôl treth, difidendau, taliadau llog, cyflogau, niferoedd cyflogaion, a'r cyfarwyddwyr ar y cyflogau uchaf. Mae'r blynyddoedd sydd â'r data mwyaf cyflawn a di-dor ar gyfer newidynnau ariannol craidd wedi'u hamlygu yn yn Nhabl A4 yr Atodiad.

Ein prif fesur o broffidioldeb yw EBITDA fel cyfran o drosiant. Defnyddiwyd EBITDA oherwydd ei fod yn darparu dangosydd proffidioldeb gweithredol cyn effeithiau strwythurau ariannu, treth, dibrisiant ac amorteiddiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddadansoddi prosesau echdynnu, oherwydd gall rhai mecanweithiau echdynnu weithredu

¹³ Mae EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddiad) yn ddangosydd ariannol ar gyfer proffidioldeb gweithredol a llif arian.

drwy drefniadau ariannu, gan gynnwys taliadau llog rhwng cwmnïau yn yr un grŵp corfforaethol. Lle nad oedd gorsymiau EBITDA penodol i gwmnïau ar gael (tua thri chwarter y cwmnïau), defnyddiwyd gorsymiau EBITDA cyfartalog yn ôl y math o ddarparwr. Y rhagfynegyddion mwyaf sefydlog a ddefnyddiwyd ar gyfer hyn oedd pa un a oedd y sefydliad yn gweithredu er-elw neu'n ddi-elw, ac a oedd yn BBaCh ai peidio (gweler Ffigur 5).

Er mwyn amcangyfrif yr elw y gellir ei briodoli i wariant adnabyddadwy gan y sector cyhoeddus yng Nghymru, gwnaethom gymhwsu gorswm EBITDA pob darparwr (neu'r gorswm cyfartalog perthnasol lle nad oedd data penodol i'r cwmni ar gael) at werth y gwariant a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru. Ar gyfer y cyfrifiad hwn, gwnaethom hepgor darparwyr nid-er-elw, oherwydd bod unrhyw warged a gofnodir ganddynt yn cael ei ailfuddsoddi yn hytrach na'i ddosbarthu i gyfranddalwyr. Roedd hyn yn golygu bod 245 o ddarparwyr er-elw â gwariant adnabyddadwy ar ôl yn y dadansoddiad. Gan fod data ar wariant ar goll ar gyfer nifer o awdurdodau contractio Cymru, mae'n debygol bod yr amcangyfrifon hyn yn tanamcangyfrif cyfanswm gwerth yr elw sy'n gysylltiedig â gwariant cyhoeddus.

Gwnaethom hefyd archwilio mecanweithiau echdynnu gweladwy drwy daliadau difidendau a llog. Amcangyfrifwyd y rhain drwy gymhwyso cymarebau difidendau a llog pob cwmni, wedi'u mynegi fel cyfran o'r trosiant, at werth y gwariant gan y sector cyhoeddus yng Nghymru a nodwyd. Ni chafodd gwerthoedd coll eu priodoli ar gyfer difidendau na llog oherwydd bod y taliadau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl strwythur y cwmni, y model perchnogaeth a'r trefniadau ariannu. O ganlyniad, dylid trin y ffigurau a gyflwynir o ran echdynnu difidendau a llog fel amcangyfrifon ceidwadol.

Tabl A5: Amcangyfrif o elw gweithredol darparwyr, yn ôl ardal Bwrdd Iechyd

Ardal bwrdd iechyd	2019/ 20	2020/ 21	2021/ 22	2022/ 23	2023/ 24	Cyfanswm yn ôl ardal	Hafan dreth/ cyfran ecwiti preifat £m	Hafan dreth/ cyfran ecwiti preifat %
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	1.97	5.08	4.67	4.45	5.70	21.86	6.79	31%
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	0.31	0.50	0.63	0.81	2.06	4.32	0.82	19%
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.19	2.52	2.30	2.34	2.55	10.89	3.70	34%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Dim data	0.07	0.17	1.32	1.48	3.04	1.18	39%
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	4.34	9.59	9.94	8.11	19.49	51.47	22.67	44%
Ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	0.00	0.08	0.67	3.34	3.21	7.30	2.93	40%
Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	No data	No data	No data	0.08	6.78	6.86	5.98	87%
Cyfanswm yn ôl blwyddyn	7.81	17.84	18.39	20.44	41.28	105.76	44.08	42%

DS: mae'n debyg bod y gwerthoedd cymharol isel ar gyfer ardaloedd Byrddau Iechyd mawr neu boblog, megis Caerdydd, Bae Abertawe, Betsi Cadwaladr, yn adlewyrchu data coll – gweler

